OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 3087

## Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig etc. (Cymru) 2014

**Cyfyngiadau ar ddefnyddio enwau penodol**

**4.**—(1) Ni chaiff neb werthu na hysbysebu cynnyrch rheoleiddiedig gan ddefnyddio enw sy'n ymddangos yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 1 fel enw'r bwyd, boed wedi ei oleddfu gan eiriau eraill ai peidio, oni bai bod y bwyd yn cydymffurfio â'r gofynion priodol yng ngholofnau 2 a 3 o'r tabl hwnnw.

(2) Ni chaiff neb werthu na hysbysebu bwyd gan ddefnyddio enw sy'n ymddangos yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 1, boed wedi ei oleddfu gan eiriau eraill ai peidio, yn y fath fodd ag i awgrymu, naill ai'n ddatganedig neu ymhlyg, bod y cynnyrch a ddynodir gan yr enw hwnnw yn gynhwysyn yn y bwyd oni bai bod y cynnyrch hwnnw yn gynhwysyn yn y bwyd a bod y cynnyrch hwnnw yn cydymffurfio â'r gofynion priodol yng ngholofnau 2 a 3 o'r tabl yn Atodlen 1 ar yr adeg y cafodd ei ddefnyddio fel cynhwysyn i baratoi bwyd.